

Cofnodion Cyfarfod Cyffredin Cyngor Cymuned Llandybie a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Stryd Fawr, Llandybie, ar nos Fercher, Ionawr 29^{ain}, 2020 am 6.30 yh.

Presennol

Cynghorwyr	R. A. Davies	Mrs K.D.L. Davies	A.W. Jones
	P.H. Roberts	D. Hopkins	Mrs A. Evans
	E.W. Nicholas	I. Rh. Llewelyn	Mrs Ll. Latham
	W. D. Evans	Mrs C. Thomas	D. Nicholas

Ymddiheuriadau

Cynghorwyr	Mrs S. E. Thomas	Mrs J. E Collins	N. Evans
	Mrs Ll. Hindley		

656.

Cyflwyniad gan Mrs Karen Burch – Cadeirydd Grŵp Marchogion Sir Gâr

Croesawodd yr Aelodau Mrs Karen Burch, ac aeth hi ymlaen i'w hysbysu taw nod y grŵp oedd cydweithio gyda phartneriaid eraill er mwyn creu mynediad diogel i farchogion. Mae'r diffyg rhwydwaith addas y gall marchogion ei defnyddio yn dal i fod yn broblem ac, er gwaetha'r ffaith bod llawer o arian wedi'i fuddsoddi yn y rhwydwaith feicio, nid oedd y llwybrau hyn ar gael ar gyfer marchogaeth. Roedd Mrs Burch wedi gofyn i'r Aelodau gymryd o ddifri pryderon y marchogion ymhob cais cynllunio ac ymgynghoriad ynghylch llwybrau teithio, ac i ystyried cefnogi cyflwyno llwybrau ceffyl ar draws yr ardal.

Diolchodd y Cadeirydd i Mrs Burch a'r ddau gyfaill a oedd wedi eu hebrwng am fynychu'r cyfarfod.

Penderfynwyd bod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin i ofyn am fap cyfredol o'r llwybrau ceffyl a'r cilffyrdd sydd yn agored i bob trafndiaeth yn ardal y Cyngor, ac i ofyn os oedd unrhyw lwybrau ceffyl a ddatgomisiynwyd y byddai modd eu hail-agor.

657.

Datganiadau o Fuddiant

Nid oedd unrhyw ddatganiad.

658.

COFNODION

Rhodddwyd ystyriaeth i gofnodion y cyfarfodydd canlynol fel y'u dosbarthwyd hwy:

Cofnodion Cyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd ar Dachwedd 27^{ain}, 2019
Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar Dachwedd 27^{ain}, 2019.

Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion y cyfarfod hyn yn gofnod cywir.

Penderfynwyd hefyd gadarnhau argymhellion y pwyllgor.

MATERION YN CODI O'R COFNODION

659.

Nid oedd unrhyw fater yn codi

GOHEBIAETH

660.

Adroddiadau'r Heddlu ynghylch troseddau

Crynodeb o'r ystadegau trosedd am y 30 diwrnod diwethaf:

Llandybie

Tanau Bwriadol 1
Bwrgleriaeth - Preswyl 1
Difrod Troseddol 1
Twyll 1
Troseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus 1
Dwyn 2
Trosedd Rhywiol 3
Trais gydag Anaf 2
Trais heb Anaf 9

Penygroes

Bwrgleriaeth - Preswyl 1
Amrywiol droseddau yn erbyn y gymdeithas 2
Troseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus 2
Troseddau Cerbyd 3
Trais heb Anaf 3
Lladrad arall 4
Meddu ar Gyffuriau 4
Difrod Troseddol 5

Saron (gan gynnwys Capel Hendre a Phenybanc)

Bwrgleriaeth - Preswyl 1
Twyll 1
Amrywiol droseddau yn erbyn y gymdeithas 1
Lladrad arall 1
Troseddau Cerbyd 2
Difrod Troseddol 6
Trais heb Anaf 7
Trais gydag Anaf 11

661.

Derbyniwyd yr eitemau o ohebiaeth canlynol:-

Mynegrif Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD)

Ymgynghoriad ynghylch Praesept yr Heddlu 2020/2021

Pwyllgorau Craffu Cyngor Sir Caerfyrddin

Penderfynwyd nodi'r eitemau hyn.

662.

Twmpath cyflymder newydd arfaethedig yng Nghaerbryn

Fel rhan o Gam 2 o'r cynllun rhannu llwybr troed Cross Hands i Landybie, bwriedir gosod twmpath cyflymder ar y B4556, Heol Penygroes, Caerbryn. Ystyrir bod angen gosod y fath dwmpath er diogelwch ffordd, i sicrhau bod cerbydau yn cadw at gyflymder isel.

Penderfynodd yr Aelodau hysbysu'r Cyngor Sir nad oeddent yn gwrthwynebu'r cynllun arfaethedig.

663.

Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuedig

Derbyniwyd llythyr oddiwrth Cyngor Sir Caerfyrddin yn hysbysu'r Aelodau bod y ddogfen wedi'i chyhoeddi ar gyfer ymgynghori.

Mae'r CDLIDA yn rhestru'r polisiau a chynigion yngh y lch datblygutir, gan gynnwys dyraniad tir hyd at y flwyddyn 2033. Mae'r cynllun yn gynhwysfawr iawn, a bydd yn cael ei fabwysiadu cyn diwedd 2021.

Bydd yr ymgynghoriad yn agored rhwng Ionawr 29^{ain}, 2020 a Mawrth 13^{eg}, 2020, a chynhelir sesiynau galw heibio i'r cyhoedd drwy gydol mis Chwefror.

664.

GILFACH IAGO

Derbyniwyd llythyr oddiwrth Ruth Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd, Cyngor Sir Caerfyrddin. Mae'r llythyr yn datgan bod y Cyngor Cymuned, drwy gydol y broses o negodi gyda Celtic Energy, wedi dewis peidio â derbyn cynnig Celtic Energy. Roedd ensyniad y Clerc yn ei lythyr blaenorol bod y Cyngor Cymuned 'erioed wedi gwrthod unrhyw gynnig' yn anghywir, gan ei bod wedi datgan bod y Cyngor 'heb dderbyn' y cynnig, a bod gan y gosodiad yma ystyr cwbl gwahanol.

Roedd y Clerc wedi ysgrifennu ati i'w hatgoffa bod y Cyngor yn dal i aros am y costau am wneud y gwaith, a beth oedd y sefyllfa ddiweddaraf ynghylch Celtic Energy o ran dechrau'r gwaith. Gofynnwyd hefyd am ddiweddariad ynghylch y cais i ddargyfeirio'r llwybrau troed.

665.

ADRODDIAD Y CLERC

a) Hawliau Tramwy Cyhoeddus

i) Yn ystod y tywydd garw diweddar, roedd cangen fawr wedi cwmpo ac wedi blocio llwybr troed 51/56. Roedd Dynevor Tree Services wedi cwblhau, yn foddhaol, y gwaith o dorri'r gangen yn ddarnau, a'i chludo i ffwrdd, a derbyniwyd anfoneb am £100 am y gwaith.

b) Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer torri glaswellt, casglu sbwriel a chynnal a chadw cyffredinol yn y parciau (Lot 1), ynghyd â chynnal a chadw Grîn Bowlio Llandybïe (Lot 3).

Roedd y Clerc wedi cwrdd â Gareth Howells o Gyngor Sir Caerfyrddin i drafod y posibilrwydd o ymestyn y CLG am ddeuddeg mis yn ychwanegol. Roedd y ddwy ochr wedi bod yn hapus gyda'r trefniant blaenorol ac, yn amodol ar wneud ychydig o newidiadau bychan o ran y gwaith sydd ei angen, cytunwyd adnewyddu'r cytundeb. Cyfanswm cost y cytundeb o 1/4/20 hyd at 31/3/21 fydd £20810.01 ar gyfer Lot 1 a £6561 ar gyfer Lot 3.

	Lot 1	Lot 3	Cyfanswm	Cost Gwirioneddol
2018/2019	£20650	£6306	£26956	£21667 a £3650 (glanhau'r 'wet pour')
2019/2020	£19729	£6432	£26161	Yn dal mewn trafodaethau gyda CSG
2020/2021	£20810	£6561	£27371*	

* yn awr yn cynnwys Parc yBlaenau

Penderfynwyd derbyn y costau ar gyfer 2020/2021.

c) Dyfynbrisiau am Arolygu'r Parciau

Derbyniwyd dau ddyfynbris am arolygu'r parciau yn fisol, ac roedd trydydd contractwr wedi hysbysu'r Clerc nad oedd am gyflwyno dyfynbris.

Ar ôl trafod y dyfynbrisiau gyda'r Cadeirydd, dyfarnwyd y cytundeb i gwmni Sunshine Playgrounds Ltd am gyfnod o ddwy flynedd, gan ddechrau ar Chwefror 1^{af}, 2020, am bris o £2430.

Penderfynwyd cadarnhau penderfyniad y Cadeirydd a'r Clerc.

ch) Cofrestr contractwyr

Roedd hysbyseb ddwyieithog wedi'i gosod ym mhapur newydd y South Wales Guardian am bris o £297.36, gan gynnwys TAW, i wahodd unrhyw contractwr i 'Fynegi Diddordeb' ynghylch ystod o waith a fyddai, o bosib, ei angen. Roedd ymatebion wedi'u derbyn oddiwrth nifer o fusnesau, ac roedd pob un ohonynt wedi'u hychwanegu at restr contractwyr posib y Cyngor.

d) Goleuadau'r Swyddfa

Bu angen amnewid golau diffygiol yn y swyddfa, am bris o £96. Redd y gwaith wedi'i gwblhau'n foddhaol gan gwmni DJ Electrical a, gyda chydysyniad y Cadeirydd, roedd yr anfoneb wedi'i thalu.

dd) Glanhau cafneu glaw Pafiliwn Llandybïe

Roedd y cafneu glaw ym mhafiliwn Llandybïe wedi cael eu glanhau'n foddhaol gan Peter Holley am bris o £90, heb godi TAW. Gyda chydysyniad y Cadeirydd, roedd yr anfoneb wedi'i thalu.

e) Coed yn gorhongian uwchben Parc Penygroes

Yn ystod arolwg diweddar o'r parc, aseswyd bod y coed yn gorhangian dros ardal chwarae y plant yn beryglus i'r cyhoedd. Roedd Dynevor Tree Services wedi cwblhau yn foddhaol y gwaith o dorri'r canghennau yn ôl, a hynny am bris o £150.

f) Cyfleusterau Cyhoeddus Llandybïe

Roedd cwmni Jeff's Tipper Hire wedi clirio draen a oedd wedi blocio am bris o £25, heb godi TAW.

Penderfynwyd cadarnhau, yn ôl-weithredol, y penderfyniad i dalu'r eitemau a restrwyd yn (a), (d), (e), (f) a (ff) uchod.

ff) Parc Penybanc

Roedd y Clerc wedi gwneud cais bod Cyngor Sir Caerfyrddin yn ynysu'r darn o offer Multi Play (Hÿn) ym mharc Penybanc. Roedd yr arolwg diweddar o'r parc wedi adnabod nifer o bryderon yn ei gylch, ac roedd yr arolygwr wedi argymhell ei fod yn cael ei ynysu, i'w atal rhag cael ei ddefnyddio.

Yn ogystal â'r offer yma, mae'r arwyneb 'wet pour' mewn cyflwr gwael iawn, ac wedi'i orchuddio gan fwsogl ac alga, ac mae ymylon yr arwyneb wedi datod o'r cerrig cwrb ac yn achosi peryglon baglu. Mae hefyd angen atgyweirio'r llwybrau sy'n arwain o'r brif fynedfa at yr offer. Heb os, mae'r coed sy'n amgylchynu'r parc yn ychwanegu at y problemau a wynebir.

Roedd y Clerc wedi argymhell cael pris am y gwaith o ail-osod yr arwyneb o dan yr offer ac ail-osod y llwybrau, ac am amnewid y ffrâm ddringo o risg uchel a ynyswyd.

Roedd yr Aelodau wedi **penderynu** derbyn yr argymhelliad hwn, ond cyn bod unrhyw benderfyniad y mae Cynghorwyr y ward I gynnal arolwg lleol.

g) Gwelliannau i'r Arolygon Parc

Roedd y pwyllgor Parciau ac Ardaloedd Chwarae wedi awdurdodi'r gwaith gwella'r parciau ym mis Gorffennaf 2019, ac roedd contractwr wedi'i benodi i wneud y gwaith. Roedd afiechyd wedi atal y gwaith rhag cael ei wneud ac roedd arolygon diweddar wedi adnabod cyflwr gwael y siglenni a'r cadwyni yn y mwyafrif o'r parciau, a bod angen newid rhain er mwyn osgoi traul pellach o'r cadwyni a seddi toredig yn y dyfodol.

Roeddy Clerc wedi trefnu prynu 12 siglen gawell a fflat, ynghyd â chadwyni dolen addas a chplynnau a phiniau am bris o £1395, i gynnwys TAW, ac wedi trefnu bod contractwr cynnal a chadw parciau lleol yn eu gosod. Roedd nifer o broblemau eraill ynghylch rhwd a

gofalu am y darnau pren wedi'u hadnabod gan yr adroddiadau arolwg, ac roedd y Clerc wedi cytuno bod rhaid gwneud y gwaith yma.

Penderfynwyd y dylai'r gwaith yma fynd yn ei flaen.

666.

MATERION ARIANNOL

(i) Talu'r biliau

Adroddodd y Clerc i'r biliau canlynol gael eu derbyn ers y cyfarfod diwethaf a, gyda chydysniad y Cadeirydd, eu talu:

5034	Dŵr Cymru	Pafiliwn Llandybie 1/6/19 i 26/11/19	£183.07
5035	EDF	Y Sied Fowlio – Tach. 2019	£20.62
5036	EDF	Pafiliwn Llandybie - Tach. 2019	£93.80
5037	EDF	Parc Capel Hendre – Tach. 2019	£11.30
5038	Martin Davies	Cyfieithu Cofnodion Cyfarfodydd Cyffredin a Chynllunio mis Tachwedd	£108.30
5039	S Griffith	Cyflog Rhagfyr gan gynnwys lwfans defnydd tŷ fel swyddfa	£2182.80
5040	Mrs R Thomas	Cyflog Rhagfyr gan gynnwys lwfans defnydd tŷ fel swyddfa	£627.40
5041	Cyllid y Wlad	Rhagfyr 2019	£885.83
5042	S Griffith	Treuliau 20/7/19 i 10/12/19 gan gynnwys band llydan, diogelwch y ryngrhwyd, teithio a chostau postio	£466.51
5043	SSE Swalec	Cyfleusterau Cyhoeddus Llandybie 13/9/19 i 11/12/19	£45.40
5044	EDF	Pafiliwn Saron Tachwedd 2019	£57.69
5045	D J Electrical	Amnewid y goleuadau yn y Swyddfa	£96.00
5046	Jeff's Tipper Hire	Agor a chau'r cyfleusterau cyhoeddus yn ystod Rhagfyr 2019	£868.00
5047	Eglwys y Plwyf, Llandybie	Gwasnaethu cloc yr eglwys yn flynyddol	£358.80
5048	Newsquest	Hysbyseb yn y South Wales Guardian ynghylch y rhestr gontractwyr	£297.36
5049	EDF	MUGA Llandybie	£11.30
5050	Dŵr Cymru	Cyfleusterau Cyhoeddus Penygroes 14/6/19 – 5/12/19	£199.83
5051	Peter Holley	Glanhau cafau dŵr glaw Pafiliwn Llandybie	£90.00
5052	SSE Swalec	Trydan yn nhoiledau Penygroes 12/9/19 – 18/12/19	£30.18
5053	Dynevor Tree Services	Taliad diwethaf y cytundeb cynnal a chadw'r llwybrau troed	£110.00

Ionawr 29^{ain}, 2020

5054	EDF	Sied y Grîn Bowlio – Rhag. 2019	£19.98
5055	EDF	Pafiliwn Llandybïe – Rhag. 2019	£27.31
5056	EDF	Parc Capel Hendre – Rhag. 2019	£10.93
5057	EDF	MUGA Llandybïe – Rhag. 2019	£10.93
5058	EDF	Pafiliwn Saron – Rhag. 2019	£29.00
5059	Vision ICT	Lletya'r wefan a gwaith cynnal hyd at Chwefror 2021	£300.00
5064	canslwyd		
5065	Dŵr Cymru	Cyfleusterau Cyhoeddus Llandybïe 20/7/19 – 9/1/20	£89.17
5070	Dŵr Cymru	Pafiliwn Bowlio a Thenis Llandybïe 17/7/19 – 6/1/20	£128.07

Yn ychwanegol, derbyniwyd yr anfonebau a'r ceisiadau am dâl canlynol:

5060	S Griffith	Cyflog Ionawr gan gynnwys lwfans defnydd tŷ fel swyddfa	£2182.80
5061	Mrs R Thomas	Cyflog Ionawr gan gynnwys lwfans defnydd tŷ fel swyddfa	£627.60
5062	Cyllid y Wlad	Ionawr 2020	£885.63
5063	Newhall Janitorial Ltd	Deunyddiau glanhau i'r cyfleusterau cyhoeddus	£311.77
5066	Rhian Thomas	Treuliau 1/9/19 – 1/1/20 gan gynnwys teithio a chostau postio	£100.54
5067	Dynevor Tree Services	Gwaredu coeden a oedd wedi cwmpo ar Lwybr Troed 51/56 a thorri coed yn ôl ym Mharc Penygroes	£250.00
5068	B T	Bil Ffôn y Clerc 15/1/20 – 14/4/20	£116.96
5069	Fenland Leisure Products Ltd	Prynu siglenni/offer i'r parciau	£1395.00
5071	Jeff's Tipper Hire	Agor a chau'r cyfleusterau cyhoeddus	£868.00
5071	Jeff's Tipper Hire	Datblocio'r toiledau yn Llandybïe	£25.00
5072	hsl Compliance	Ymweliadau gwasanaeth hylendid dŵr, Medi 2019 – Ionawr 2020	£1049.50
5073	EDF	Sied y Grîn Bowlio – Ionawr 2020	£18.43
5074	EDF	Pafiliwn Llandybïe – Ionawr 2020	£108.41
5075	EDF	Parc Capel Hendre – Ionawr 2020	£9.88
5076	EDF	MUGA Llandybïe – Ionawr 2020	£9.88
5077	EDF	Pafiliwn Saron – Ionawr 2020	£19.65
5079	SSE Swalec	Trydan i'r Swyddfa a'r Siambr 9/10/19 – 8/1/20	£58.53

Penderfynodd yr Aelodau y dylid talu'r cyfrifon.

Cadeirydd

(ii) Monitro'r gyllideb yn fisol

	2018/19 Elw a Cholled £	2019/20 Amcangyfrif £	Incwm a gwariant gwirioneddol 1.4.19-31.12.19 £
Praesept	180,000	180,000	180,000
Grant Cynnal a Chadw	46,640	0	3,841
Llog: Lloyds	184	250	105
Llog: cyfrifon buddsoddi	306	400	0
Ad-daliad EDF	166	0	1,206
Hawliau Tramwy	3000	3,000	3,000
Llogi'r cyfleusterau	0	4,200	4,700
Ad-daliad CSC o VAS		1,800	
	<u>230,296</u>	<u>189,650</u>	<u>192,852</u>
Gweinyddu Cyffredinol	50,722	56,575	17,169
Staffio	43,656	43,656	35,064
Parciau ac Ardaloedd Chwarae	50,062	30,000	104,940
Taliadau Adran 137	7,348		3,759
Taliadau yn unol â phwerau eraill	1850		1,550
Mannau agored cyhoeddus	1,663		4,450
Neuaddau pentref	4,545		2,470
Claddfeydd	3,250	18000	2,250
Hawliau Tramwy – cynnal a chadw	4,745	10000	5,357
Hawliau Tramwy – gwelliannau	0		
Goleuo cyhoeddus - ynni	7,877		
Goleuo cyhoeddus - gwelliant	0	8,500	
Datblygu Cymunedol	68,565	25,000	30,363
Cyfleusterau Cyhoeddus	4,572		
Llandybie			4,386
Cyfleusterau Cyhoeddus			
Penygroes	3,704	10,000	5,098
Lwfans y Cadeirydd	300	300	
	<u>250,419</u>	<u>202,031</u>	<u>216,856</u>
Balans am y flwyddyn (cyfnod)	-20,123		-24,004
d/y	438,102		417,979
c/y	417,979		393,975

Arian parod a buddsoddiadau	402,723		386,207
Dyledwyr	15,256		7,768
Credydwyr	0		0
	417,979		393,975

(iii) Esboniad pan fod y gwariant gwirioneddol yn fwy na 15% o'r cyllid blynyddol hyd yn hyn:

Parciau ac Ardaloedd Chwarae – Roedd 3^{ydd} prisiad tendr Chwefror 2019 wedi'i dalu, ac roedd yr anfoneb am offer newydd ym mharciau Llandybïe a Phenygroes hefyd wedi'i thalu.

(iv) Cysoniad arian parod

Roedd y Cynghorydd W. D. Evans wedi cynnal cysoniad arian parod chwarterol hyd at Ragfyr 31^{ain}, 2019. Ni godwyd unrhyw faterion y dylid tynnu sylw atynt.

667.

Cais am wybodaeth ynghylch cytundebau Adran 106 gan Gynghorwyr Sir

Nid oedd unrhyw gais.

668.

Adroddiadau ynghylch seminarau / cyfarfodydd ar y cyd

Dim i'w adrodd.

669.

Dyddiad y cyfarfod nesaf

Penderfynodd yr Aelodau y dylid cynnal Cyfarfod Cyffredin nesaf y Cyngor ar Chwefror 26^{ain}, 2020

670.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall i'w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 7.35 yh.